**Dinas a Sir Abertawe**

## Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio

**O bell drwy Microsoft Teams**

**Dydd Mercher, 9 Mehefin 2021 am 2.00 pm**

**Yn Bresennol**:

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| C Anderson | P M Black | D W Helliwell |
| J W Jones | M B Lewis | C E Lloyd |
| S Pritchard | J A Raynor | L V Walton |
| T M White | | |

**Aelod Lleyg**

Julie Davies

Paula O'Connor

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Bobby Grey | Rheolwr Dros Dro - Theatr y Grand |
| Adam Hill | Dirprwy Brif Weithredwr/Cyfarwyddwr Adnoddau |
| Tracey McNulty | Pennaeth y Gwasanaethau Diwylliannol |
| Tracey Meredith | Prif Swyddog Cyfreithiol |
| Martin Nicholls | Cyfarwyddwr Lleoedd |
| Jeremy Parkhouse | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd |
| Ben Smith | Prif Swyddog Cyllid / Swyddog Adran 151 |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**

Y Cynghorydd P R Hood-Williams a Jason Garcia – Archwilio Cymru

---

**1 Ethol Cadeirydd ar Gyfer Blwyddyn Ddinesig 2021-2022.**

**Penderfynwyd** ethol Paula O’Connor yn Gadeirydd ar gyfer Blwyddyn Ddinesig 2021/2022.

**(Paula O'Connor fu'n llywyddu)**

**2 Ethol Is-gadeirydd ar Gyfer Blwyddyn Ddinesig 2021-2022.**

**Penderfynwyd** ethol y Cynghorydd C E Lloyd yn Is-gadeirydd ar gyfer blwyddyn ddinesig 2021-2022.

**3 Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.**

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, datganwyd y buddiannau canlynol: -

Datganodd y Cynghorydd J W Jones gysylltiad personol a rhagfarnol â Chofnod Rhif 80 – Ymateb i Adroddiad Archwilio Theatr y Grand 2020/21 a gadawodd y cyfarfod cyn i'r eitem gael ei thrafod.

Datganodd y Cynghorydd J A Raynor gysylltiad personol â Chofnod rhif 81 – Adroddiad Archwilio Cyflogi Staff Asiantaeth 2019/20 – Diweddariad 2021.

Datganodd y Cynghorwyr M B Lewis a T M White gysylltiadau personol â Chofnod Rhif 78 - Cynllun Blynyddol Archwiliad Mewnol 2020/21 - Adroddiad Monitro ar gyfer y cyfnod o 1 Ionawr 2021 i 31 Mawrth 2021.

Datganodd Julie Davies (Aelod Lleyg) gysylltiad personol â Chofnod rhif 80 – Ymateb i Adroddiad Archwilio Theatr y Grand 2020/21.

**4 Cofnodion.**

**Penderfynwyd** cymeradwyo cofnodion cyfarfod blaenorol y Pwyllgor Archwilio fel cofnod cywir, yn amodol ar y diwygiadau canlynol: -

Cofnod rhif 73 - Cynllun Gwaith y Pwyllgor Archwilio ar gyfer 2020/21 a 2021/22 - rhoi 'y Pwyllgor' yn lle 'cynghorwyr' yn y trydydd paragraff.

**5 Adroddiad Monitro Cynllun Blynyddol Archwilio Mewnol 2020/21 ar gyfer y Cyfnod 1 Ionawr 2021 i 31 Mawrth 2021. (Simon Cockings)**

Cyflwynodd y Prif Archwiliwr, Nick Davies, adroddiad a oedd yn darparu'r archwiliadau terfynol ac unrhyw waith arall a wnaed gan yr Is-adran Archwilio Mewnol yn ystod y cyfnod o 1 Ionawr 2021 i 31 Mawrth 2021.

Cwblhawyd cyfanswm o 25 o archwiliadau yn ystod y chwarter. Rhestrwyd yr archwiliadau a gwblhawyd yn Atodiad 1, a oedd hefyd yn dangos lefel y sicrwydd a roddwyd ar ddiwedd yr archwiliad a nifer yr argymhellion a wnaed ac y cytunwyd arnynt. Roedd Atodiad 2 yn darparu crynodeb o'r cwmpas o'r adolygiadau terfynol yn ystod y cyfnod.

Rhoddwyd dadansoddiad o lefelau sicrwydd yr archwiliadau a gwblhawyd a gwnaed cyfanswm o 209 o argymhellion archwilio a chytunodd y rheolwyr i weithredu'r holl argymhellion heblaw am un.

Esboniwyd bod mynediad i holl safleoedd y cyngor wedi'i gyfyngu oherwydd pandemig parhaus COVID-19. Roedd hyn wedi cael effaith sylweddol ar allu'r Tîm Archwilio i gwblhau profion ar y safle a byddai'n parhau i wneud hynny nes i'r cyfyngiadau gael eu codi. Esboniwyd hefyd nad oedd y Tîm yn gallu cynnal rhai ymweliadau archwilio gan na allai staff gael mynediad i rai safleoedd, e.e. ysgolion.

Cafodd y Pwyllgor yr wybodaeth ddiweddaraf am y grant a'r gwaith ychwanegol a wnaed gan yr Adran Archwilio Mewnol yn ystod y cyfnod. Darparwyd gwybodaeth hefyd am salwch staff a gwaith arall a wnaed gan aelodau'r tîm y tu allan i'w dyletswyddau arfaethedig.

Darparodd Atodiad 3 Gynllun Archwilio Mewnol 2020/21 - Cynnydd hyd at 31/03/21 ac esboniwyd bod 79 o archwiliadau o gynllun archwilio 2020/21 wedi'u cwblhau i o leiaf y cam adroddiad drafft (52%), gyda 13 o archwiliadau ychwanegol yn mynd rhagddo (8%). O ganlyniad, roedd tua 60% o'r Cynllun Archwilio wedi'i gwblhau neu ar waith. Yn ogystal, oherwydd newidiadau mewn gofynion ardystio ar gyfer nifer o grantiau a newidiadau eraill yn ystod y flwyddyn, nid oedd angen 7 o'r archwiliadau a oedd wedi'u cynnwys yn y cynllun gwreiddiol.

Cyhoeddwyd tri adroddiad cymedrol yn y chwarter ac roeddent yn cynnwys Cyfrifon Derbyniadwy 2020/21, Theatr y Grand 2020/21 a Rheoli Absenoldeb 2020/21.

Hysbyswyd y Pwyllgor hefyd fod yn rhaid gohirio rhai archwiliadau tan 2021-2022 a bod yr archwiliadau gohiriedig yn ymwneud yn bennaf â Gwasanaethau Cymdeithasol, TG, Ardrethi Busnes (Ardrethi Annomestig Cenedlaethol) ac archwiliadau ysgolion, a darparwyd manylion llawn.

Darparwyd manylion y gwaith dilynol a gwblhawyd rhwng 1 Ionawr a 31 Mawrth 2021, gan gynnwys gwaith dilynol Cyflogi Gweithwyr Asiantaeth.

Trafododd y pwyllgor y canlynol: -

- Pryder ynglŷn â'r oedi wrth dynnu sylw at fanylion incwm Theatr y Grand;
- Ar ôl ei adolygu, mae'r adran yn cydnabod pwysigrwydd cadw staff profiadol mewn meysydd gwasanaeth;
- Hyfforddiant ar-lein gorfodol nad yw'n cael ei gwblhau gan reolwyr ar y Gronfa Ddysgu a sut y caiff nodiadau atgoffa eu dosbarthu'n rheolaidd i adrannau;
- Gwrthod derbyn un argymhelliad risg isel gan gleient a thrafodaethau ynghylch y mesurau ychwanegol y gallai Archwilio Mewnol eu cyflwyno i roi sicrwydd pellach pan oedd y broses risg isel yn cael ei chynnal;
- Gweithdrefnau adolygu dilynol a gynhaliwyd gan yr Archwiliad Mewnol;
- Cyfraniad Archwilio a Thwyll Corfforaethol wrth gyhoeddi grantiau ardrethi busnes.

Myfyriodd y Cadeirydd ar y meysydd o'r cynllun a ohiriwyd a'r effaith y mae'r gohiriadau hynny wedi'i chael ar y sicrwydd a gafwyd gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar ddiwedd y flwyddyn.

**Penderfynwyd** y byddai Aelodau'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn nodi'r wybodaeth yn yr adroddiad hwn.

**6 Canolfan Gwasanaethau - Diweddariad ar Gyfrifon Derbyniadwy. (Sian Williams / Michelle Davies)**

Cyflwynodd Ben Smith, Prif Swyddog Cyllid/Adran 151 adroddiad a oedd yn rhoi'r diweddaraf am swyddogaeth Cyfrifon Derbyniadwy y Ganolfan Gwasanaethau.

Amlinellwyd y cynnydd a wnaed ers cyfarfod y Pwyllgor ym mis Chwefror 2021 ac fe'i crynhowyd yn fanwl.

Trafododd y pwyllgor y canlynol: -

- Adnoddau staff Cyfrifon Derbyniadwy;
- Mai adrannau/meysydd gwasanaeth unigol sy'n gyfrifol am ddyledion a sut y gellir tynnu sylw pob cyfarwyddiaeth at hyn;
- Cynnydd o ran Cwmwl Oracle a'r angen i drosglwyddo staff oherwydd yr amserlenni dan sylw;
- Canlyniad cadarnhaol yr adroddiadau alldro yr adroddwyd amdanynt wrth y Cabinet ar 17 Mehefin 2021 sy'n rhoi'r canlyniad Cyfrifon Derbyniadwy mewn persbectif;
- Monitro dyledion yn rheolaidd;
- Manylion yn nogfen Ymwybyddiaeth Dyledion Banc Lloyds.

Soniodd y Cadeirydd am y ffaith y gohiriwyd yr holl anfonebau / ddyledion rhwng mis Ebrill a Gorffennaf 2020, a bod hyn yn effeithio ar sefyllfa bresennol y cyngor a'r Gwasanaethau Cyfreithiol.

**Penderfynwyd** ar y canlynol: -

1) Atgoffir Adrannau Gwasanaeth ymhellach o'u cyfrifoldebau a'u rôl yn y broses anfonebu. Dylid atgyfnerthu hyn drwy'r Cyfarwyddwyr a Phenaethiaid Gwasanaeth er mwyn sicrhau cysondeb a chadernid y broses;
2) Bydd Cyfrifon Derbyniadwy yn parhau i adrodd i'r Tîm Rheoli Corfforaethol bob chwarter fel diweddariad pellach ar y sefyllfa o ran dyledion ar draws yr awdurdod;
3) Cyflwynir adroddiad diweddaru i gyfarfod y Pwyllgor a drefnwyd ar gyfer 14 Medi 2021;
4) Caiff y ddogfen Ymwybyddiaeth Dyledion Banc Lloyds ei ddosbarthu i'r Pwyllgor.

**7 Ymateb i Adroddiad Archwilio'r Grand Theatre 2020/21. (Martin Nicholls / Tracey McNulty)**

Cyflwynodd Martin Nicholls, Cyfarwyddwr Lleoedd, Tracey McNulty, Pennaeth y Gwasanaethau Diwylliannol a Bobby Grey, Rheolwr Dros Dro Theatr y Grand adroddiad 'er gwybodaeth' a oedd yn rhoi diweddariad ac ymateb i Archwiliad Mewnol Theatr y Grand 2020.

Roedd yr adroddiad yn ymdrin â'r 1 Risg Uchel (RU); 6 Risg Ganolig (RG) a'r holl risgiau eraill a gofnodwyd a oedd naill ai'n Risg Isel (RI) neu'n Arfer Da (AD). Darparwyd Cynllun Gweithredu wedi'i ddiweddaru yn Atodiad A.

Tynnodd y Cyfarwyddwr Lleoedd sylw at y ffaith bod nifer o faterion yn peri pryder, nad aethpwyd i'r afael â rhai ohonynt o'r blaen, ac roedd yn cydnabod nad oedd hyn yn ddigon da. Fodd bynnag, ychwanegodd fod y Cynllun Gweithredu yn dangos cynnydd sylweddol, gan gynnwys 4 argymhelliad a oedd wedi'u cwblhau.

Cyfeiriodd at yr heriau a gafwyd yn sgîl COVID-19, yn ogystal â rhai materion staffio cymhleth iawn ac ychwanegodd fod y gwaith a wnaed wedi darparu sylfaen i symud ymlaen.

Rhoddodd Pennaeth y Gwasanaethau Diwylliannol wybodaeth fanylach i'r Pwyllgor am yr anawsterau a wynebir gan Theatr y Grand, yn enwedig cau'r theatr yn ystod COVID-19 ac adleoli staff. Amlygwyd y ffaith er nad oedd argymhellion blaenorol wedi cael sylw, ar ôl i'r tîm rheoli gweithredol ddychwelyd o ddyletswyddau Profi, Diogelu ac Olrhain (POD), cytunwyd ar yr holl gamau gweithredu a'u cwblhau ar unwaith.

Trafododd y pwyllgor y canlynol: -

- Y sefyllfa o ran rhoi tocynnau am ddim, yr angen i adolygu'r polisi diweddaredig yn ystod y cyfnod adfer sydd i ddod a'i gysoni â rhai o'r arferion a wnaed i wella presenoldeb;
- Y gwaith dilynol a wneir gan Archwilio Mewnol yn ddiweddarach yn y flwyddyn ariannol;
- Y risgiau ehangach a wynebir gan y theatr, gan gynnwys yr arena newydd, materion staffio a'r angen i ddilyn prosesau a gweithdrefnau yn ystod absenoldeb rheolwyr;
- Gweithio mewn partneriaeth â sefydliadau eraill, e.e. Cyngor y Celfyddydau / grwpiau theatr ieuenctid lleol / Cyngor Hil Cymru ac apelio at gymdogion agos y theatr;
- Risgiau a nodwyd yn yr adroddiad gan gynnwys materion ariannol a sut mae'r gyfarwyddiaeth / maes gwasanaeth yn ymdrin â risgiau yn ystod newid ac absenoldebau staff.

Dywedodd y Cadeirydd ei bod yn siomedig gyda chynnwys yr adroddiad, a oedd yn dangos dadansoddiad o reolaeth fewnol sylfaenol a diffyg goruchwyliaeth gan reolwyr. Ychwanegodd ei bod wedi'i sicrhau gan y ffaith bod y tîm rheoli'n mynd i'r afael â'r materion, wedi gwneud cynnydd ac y byddai'r Pwyllgor yn cael adroddiad dilynol yr Archwiliad Mewnol yn ddiweddarach yn y flwyddyn.

## 8 Adroddiad Archwilio Cyflogaeth Staff Asiantaeth 2019/20 - 2021 Diweddariad. (Er Gwybodaeth) (Adrian Chard)

Rhoddodd Adrian Chard, Rheolwr Adnoddau Dynol Strategol a Datblygu Sefydliadol adroddiad diweddaru 'er gwybodaeth' ar gamau gweithredu sy'n deillio o'r adroddiad Archwilio Cyflogi Staff Asiantaeth.

Amlinellwyd y camau gweithredu a gymerwyd ers mis Mehefin 2020 a oedd yn cynnwys: -

- E-bost at aelodau'r Tîm Rheoli Corfforaethol a gyhoeddwyd yng Ngwanwyn 2021 a oedd yn atgoffa Rheolwyr i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r Polisi Gweithwyr Asiantaeth;
- Yn dilyn ymgynghoriad priodol, cytunwyd ar Bolisi Gweithwyr Asiantaeth diwygiedig yng nghyfarfod y Cyd-bwyllgor Ymgynghorol a byddai'n gweithredu fel llwyfan ar gyfer ymgysylltu ymhellach â Rheolwyr o ran ymgysylltu â Gweithwyr Asiantaeth yn eu meysydd priodol;

- Parhaodd Adnoddau Dynol a Datblygu Sefydliadol i anfon nodiadau atgoffa rheolaidd at Reolwyr i adolygu ymgysylltiad gweithwyr asiantaeth a oedd wedi'u penodi ers dros 12 mis, ac roedd yn ofynnol i Reolwyr gadarnhau ei bod yn briodol o hyd i'r cyngor ymgysylltu â gweithiwr asiantaeth yn hytrach na chyflogi person yn y swydd.

Hysbyswyd y Pwyllgor fod 166 o weithwyr asiantaeth yn cael eu cyflogi gan yr Awdurdod ar 31 Mawrth 2021 a darparwyd manylion yr adran / maes gwasanaeth. Manylwyd hefyd ar y costau 'ar gontract' ac 'oddi ar gontract'.

Ychwanegwyd y cysylltwyd â Phenaethiaid Gwasanaeth i roi adborth ar y mesurau cydymffurfio a nodwyd yn yr Adroddiad Archwilio a manylwyd ar adborth adrannau / meysydd gwasanaeth, ynghyd â'r gwaith partneriaeth a ddarparwyd gan Staffline.

Trafododd y pwyllgor y canlynol: -

- Nifer y staff asiantaeth sy'n cael eu defnyddio a sut roedd y ffigurau a ddarparwyd yn giplun mewn amser;
- Y nod cyffredinol yw lleihau costau gweithwyr asiantaeth drwy gynnig hyfforddeiaethau;
- Lleihau gwariant ar gontractau gyda chwmnïau sy'n darparu gweithwyr asiantaeth;
- Darparu manylion swyddi cyfwerth ag amser llawn er mwyn sefydlu cyfanswm y gwariant / cyfraddau cyfartalog fesul awr a fydd yn amlygu nifer y staff cyfwerth ag amser llawn sydd eu hangen;
- Gwasanaethau rheng flaen yn cynnig swyddi amser llawn yn hytrach na phenodi gweithwyr asiantaeth a darparu dadansoddiad o'r costau sy'n ymwneud â gweithwyr asiantaeth;
- Paham mai gweithwyr asiantaeth ac nid staff cyflogedig oedd yn darparu gwasanaeth parhaol yn yr Uned Drafnidiaeth Ganolog, a sut yr eid i'r afael â sefyllfaoedd tebyg wedi'u nodi ar draws y cyngor;
- Polisi strategol yw'r Polisi Gweithwyr Asiantaeth, lle byddai'n rhaid i feysydd gwasanaeth / adrannau penodol fynd i'r afael ag unrhyw faterion gweithredol;
- Y ffaith nad oedd gweithwyr ysgol wedi'u cynnwys yn y ffigurau a ddarparwyd ac yn y dyfodol bydd angen cynnwys y manylion hynny yn y ffigurau a ddarparwyd;
- Archwilio Mewnol yn gwneud gwaith manwl ynghylch meysydd gwasanaeth sy'n defnyddio lefel uchel o weithwyr asiantaeth ac yn canolbwyntio ar gyfraddau salwch / absenoldeb yn y meysydd hynny;
- Y posibilrwydd o Graffu yn ymchwilio i'r pwnc ymhellach, yn benodol Gweithgor y Gweithlu er mwyn rhoi sicrwydd ychwanegol;
- Cydymffurfio'n gadarn â'r Polisi Gweithwyr Asiantaeth ym mhob rhan o'r Awdurdod;

Dywedodd y Cadeirydd fod yr adroddiad diweddaru o ganlyniad i adroddiad Archwilio Mewnol cymedrol a oedd hefyd wedi tynnu sylw at wariant blynyddol o £4 miliwn. Yn ogystal, gofynnodd am y posibilrwydd y gallai'r cyngor sefydlu banc asiantaeth mewnol, yn debyg i'r un sy'n gweithredu o fewn y GIG.

Mynegodd y Prif Swyddog Cyllid / Adran 151 bryder y dylai'r pwyllgor ddilyn y gweithdrefnau a chaniatáu i adrannau fynd i'r afael â'r meysydd pryder a amlygwyd gan y pwyllgor, ac ymateb i'r Rheolwr Adnoddau Dynol Strategol a Datblygu Sefydliadol. Byddai'r pwyllgor wedyn yn cael gwybod am y cynnydd.

Awgrymodd Tracey Meredith, Prif Swyddog Cyfreithiol / Swyddog Monitro, er mwyn osgoi dyblygu, y dylai Cadeirydd a Chadeirydd Pwyllgor y Rhaglen Graffu drafod y mater ymhellach ac, os oes angen, adrodd wrth gyfarfod yn y dyfodol.

Atgyfnerthodd y Cadeirydd rôl y Pwyllgor o ran cael sicrwydd bod cydymffurfiaeth â pholisi a gweithdrefnau'r cyngor, a thynnodd sylw at y ffaith nad oedd unrhyw awydd i ddyblygu'r gwaith a wnaed gan Bwyllgor y Rhaglen Graffu.

**Penderfynwyd** y byddai'r Rheolwr Adnoddau Dynol Strategol a Datblygu Sefydliadol yn darparu adroddiad diweddaru i gyfarfod y Pwyllgor a drefnwyd ar gyfer 12 Hydref 2021.

## 9 Adroddiad Traciwr Gweithredu Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio. (Er Gwybodaeth) (Jeremy Parkhouse)

Darparwyd Adroddiad Olrhain Camau Gweithredu'r Pwyllgor Archwilio 'er gwybodaeth'.

Tynnodd y Cadeirydd sylw at y cam gweithredu i olrhain argymhellion Archwilio Cymru sy'n weddill yn Adroddiad Olrhain Camau Gweithredu. Cyfeiriodd at Atodiad 2 – y llythyr at y Cadeirydd oddi wrth Gyfarwyddwr Archwilio Archwilio Cymru ynghylch adroddiadau ac argymhellion, lle'r ailadroddwyd bod angen darparu adroddiad olrhain.

Ychwanegodd y Prif Swyddog Cyllid / Swyddog Adran 151 fod olrhain adroddiadau Archwilio Cymru yn fater o allu i'r Awdurdod ar hyn o bryd.

Ychwanegodd y Cadeirydd y byddai'n gwneud ymholiadau gyda'r Prif Archwilydd, Cyngor Caerdydd ynglŷn â'r feddalwedd maent yn ei defnyddio ac y byddai'n cysylltu ag Archwilio Cymru ynghylch unrhyw daenlenni y maent yn eu defnyddio.

## 10 Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio - Cynllun Gwaith 2021/22. (Er Gwybodaeth) (Jeremy Parkhouse)

Adroddwyd am Gynllun Gwaith y Pwyllgor Archwilio 'er gwybodaeth'.

Dywedodd y Dirprwy Brif Weithredwr fod rhaglen hyfforddi wrthi'n cael ei drafftio a fyddai'n ystyried cylch gorchwyl newydd y Pwyllgor.

Gofynnodd y Cadeirydd i Dwyll Corfforaethol ddarparu adroddiad diweddaru 6 mis yn ogystal â'i adroddiad blynyddol.

Tynnodd y Swyddog Gwasanaethau Democrataidd sylw at y ffaith y byddai adroddiadau Archwilio Cymru ac adroddiadau ychwanegol mewn perthynas â risg a rheolaeth ariannol yn cael eu hychwanegu at y Cynllun.

Daeth y cyfarfod I ben am 3.52 pm

**Cadeirydd**